

YN YR CYMYSGEDD



#STOP
ASIAN HATE



(Ail)ddechrau arni

Roeddwn yn hynod ffodus i gymryd rhan yn rhaglen dysgu proffesiynol ACRh eleni sydd wir wedi ailgynnau fy angerdd am ACRh. Dros yr ychydig fisoedd diwethaf rydw i wedi bod yn gweithio gyda grŵp o flwyddyn 8 yn trawsnewid ACRh yn ein hysgol (gobeithio!). Yn fy marn i, mae disgyblion eisoes yn agored i tswnami o syniadau a gwybodaeth ffug a niweidiol am ACRh sy'n atgyfnerthu'r negeseuon negyddol a'r ystrydebau y maen nhw'n dod ar eu traws yn y byd o'u cwmpas. Mae'n ddyletswydd arnom, rwy'n credu, i gynnig gwrth-naratif iach i bobl ifanc, ond ar ddechrau'r prosiect hwn, doedden i ddim yn siŵr beth ddylai'r gwrth-naratif iach hwnnw fod. Roeddwn i'n meddwl ei bod hi'n bwysig iawn gwrando ar bobl ifanc a deall eu profiadau o'r byd maen nhw'n tyfu i fyny ynddo – sy'n wahanol iawn i'r un y cefais fy magu ynddo. Roeddwn i eisiau gwrando arnyn nhw a darganfod beth maen nhw eisiau ei ddysgu a beth mae ACRh yn ei olygu iddyn nhw.

Yn fy marn i, mae disgyblion eisoes yn agored i tswnami o syniadau a gwybodaeth ffug a niweidiol am ACRh sy'n atgyfnerthu'r negeseuon negyddol a'r ystrydebau y maen nhw'n dod ar eu traws yn y byd o'u cwmpas.

Ysgol

Ysgol Uwchradd.

Y rhai a gymerodd ran yn yr archwiliad creadigol

68 o bobl ifanc (Blwyddyn 8).

Gweithgareddau'r archwiliad creadigol

Prosiect llyfr ryseitiau:
Cynhwysion – Pwy sy'n y gymysgedd?,
Cymysgedd – Beth sy'n aflonyddu arnoch chi? Prosiect grŵp creadigol – beth ydych chi eisiau ei ddysgu yn addysg cydberthynas a rhywioldeb?

Gwneud i ACRh Gyfri

Tu chwith allan; Beth sy'n gwneud ffrind da?

Gyda'r newidiadau sydd ar y gweill yn y cwricwlwm ACRh, penderfynais ei bod yn amser perffaith yn awr i ofyn i'r uwch-dîm rheoli a chyflwyno iddynt. Dywedais wrthyn nhw mai dyma ein cyfle i gael hyn yn iawn; dyma ein cyfle i gynnwys plant go iawn wrth wneud ACRh yn berthnasol ac yn bwysig i'w bywydau. Ac fe wnaethant wrando a rhoi caniatâd i mi fwrw ymlaen â fy mhrosiect.

Fy syniad oedd gweithio gyda disgyblion blwyddyn 8 i gyd-gynhyrchu llyfr ryseitiai ar gyfer ACRh a fydd yn mynd gyda nhw i flwyddyn 9 ac yn cael ei ddefnyddio i lywio'r hyn y byddaf yn ei ddysgu yn ACRh. Bydd y llyfr ryseitiai'n cynnwys **y cynhwysion** (y bobl sy'n rhan o'n hysgol), **y gymysgedd** (yr hyn y mae disgyblion eisiau ei ddysgu yn ACRh) a'r **canlyniad** (y cynllun gwaith ACRh y byddaf yn ei greu yn seiliedig ar yr hyn y mae pobl ifanc yn ei rannu gyda mi am yr hyn y maent yn ei brofi a'r hyn yr hoffent ei ddysgu).

Fy mreuddwyd go iawn yw cynnwys ACRh ar draws y cwricwlwm cyfan – boed hynny mewn mathemateg yn edrych ar ganran yr arian sy'n cael ei wario ar dreth ar gynhyrchion mislif neu mewn ffiseg yn edrych ar wahanol rymoedd mewn cydberthnasau – ond rwy'n sylweddoli na fydd hynny'n digwydd dros nos. Felly'r prosiect llyfr ryseitiai hwn yw fy man cychwyn.

Fy syniad oedd gweithio gyda disgyblion blwyddyn 8i gyd-gynhyrchu llyfr ryseitiai ar gyfer ACRh a fydd yn mynd gyda nhw i flwyddyn 9 ac yn cael ei ddefnyddio i lywio'r hyn y byddaf yn ei ddysgu yn ACRh.





Llyfr ryseitiai ar gyfer ACRh gwych

Gweithiais gyda dau ddsbarth blwyddyn 8 yn ystod eu gwersi ABCh am hanner tymor. Roedd y ddau yn grwpiau o 34 o bobl ifanc o alluoedd cymysg.

Y CYNHWYSION: Pwy sy'n rhan o'n hysgol?


Dechreuon ni gyda'r cynhwysion a gwneud rhai gweithgareddau ynghylch pwy sy'n rhan o'n hysgol. Cawsom ddwy bowlen gymysgu ym mlaen yr ystafell. Roedd gan y bobl ifanc ddarnau cardbord o bobl bach er mwyn iddynt nodi'r holl wahanol bobl sy'n rhan o'n hysgol. Roedd yn rhaid i bobl ifanc roi eu ffigurau mewn powlen benodol os oeddent yn meddwl eu bod yn ffitio i mewn i'n hysgol ni a'r bowlen arall os oeddent yn meddwl nad oeddent yn ffitio i mewn. Yna fe wnaethon ni drafod pam mae rhai pobl yn ffitio i mewn ac eraill ddim, a beth allwn ni ei wneud i wneud ein hysgol yn lle gwell ac yn fwy cynhwysol i bawb.



Gwylwch ein ffilm yma: vimeo.com/566744575



Y GYMYSGEDD: Beth hoffai pobl ifanc ei ddysgu?

Yna symudon ni ymlaen i'r gymysgedd o'r llyfr ryseitiai y bydd pob dosbarth wedi'i gyhoeddi a'i gynhyrchu ar eu cyfer. Felly treuliais beth amser gyda disgyblion yn edrych ar y newidiadau sydd ar y gweill i'r cwricwlwm ACRh. Aethom trwy'r gwahanol themâu ACRh, gan eu tynnu'n ddarnau fel bod pobl ifanc yn deall yr hyn y mae'r cwricwlwm newydd yn ceisio'i gyflawni. Oedden nhw'n hoffi'r cwricwlwm newydd? Oedden nhw ddim yn ei hoffi? Ydyn nhw'n meddwl bod popeth sydd angen iddyn nhw ei ddysgu wedi'i gynnwys ynddo? Beth sy'n bwysig iddyn nhw? Beth sy'n bwysig yn eu bywydau? Sut maen nhw'n edrych ar y byd?





Aethom trwy'r gwahanol themâu ACRh, gan eu tynnu'n ddarnau fel bod pobl ifanc yn deall yr hyn y mae'r cwricwlwm newydd yn ceisio'i gyflawni.

Gwnaethon ni hefyd weithgaredd o'r enw **Beth sy'n aflonyddu arnoch chi?** a oedd yn gyfle i bobl ifanc ysgrifennu'r holl bethau sy'n aflonyddu arny'n nhw, yn eu poeni neu'n eu gwylltio am ACRh, rhyw a chydberthnasau. Gwnaethant addurno eu jariau gyda negeseuon am yr hyn yr hoffent ei newid yn y byd, neu yn ein hysgol ni.



Yna rhannais y disgyblion i grwpiau. Rhoddais ychydig o amser i'r grwpiau ddod i adnabod ei gilydd a dod i weithio gyda'i gilydd ac yna fe wnes i eu gwahodd i gynhyrchu rhywbeth sy'n rhoi gwybod i mi yr hyn maen nhw eisiau dysgu amdano yn ACRh, beth sy'n bwysig iddyn nhw a sut maen nhw'n profi'r byd. Dywedais y gallai fod yn unrhyw beth o gwbl – darn o gelf, fideo, cerddoriaeth, gallai fod yn unrhyw beth.

Ac mae pobl ifanc wedi gwneud pethau. Maen nhw wedi gwneud gwaith celf. Mae un ohonyn nhw'n cyfansoddi symudiad cerddorfaol llawn, mae gen i rapiau, mae gen i fideos. Mae gen i bob math o bethau – pob un yn ceisio gwneud i mi ddeall yr hyn maen nhw eisiau dysgu amdano ac yng nghyd-destun y byd maen nhw'n ei brofi. Mae gen i beth amser ar ddiwrnod HMS ac rydw i wedi mynd am y thema **lleisiau**. Rydw i'n mynd i ddangos i'r staff beth mae'r disgyblion wedi'i gynhyrchu fel y gall gweddill fy nghydweithwyr gael cyfle i wrando ar yr hyn sydd gan bobl ifanc ei ddweud.



Rhoddais ychydig o amser i'r grwpiau ddod i adnabod ei gilydd a dod i weithio gyda'i gilydd ac yna fe wnes i eu gwahodd i gynhyrchu rhywbeth sy'n rhoi gwybod i mi yr hyn maen nhw eisiau dysgu amdano yn ACRh, beth sy'n bwysig iddyn nhw a sut maen nhw'n profi'r byd.

Y canlyniad – coginio'r cwricwlwm ACRh

Bydd y canlyniad – a fyddai fel rheol yn gacen braf – yn gynllun gwaith yn seiliedig ar yr hyn y mae pobl ifanc wedi'i ddweud eu bod eisiau ei ddysgu. Dyma fyddaf i'n ei gyflwyno iddyn nhw ym mlwyddyn 9.

Mae pobl ifanc wedi dylunio'r cloriau ar gyfer y llyfrau ryseitiai eu hunain a thu mewn byddaf yn rhoi popeth rydw i wedi'i ddysgu ganddyn nhw a'r cynllun gwaith y byddaf yn ei greu yn seiliedig ar yr hyn rydw i wedi'i ddysgu.




— RYSÁIT —

Crynodeb o'r hyn rydw i wedi'i ddysgu hyd yn hyn:

- ▶ Mae pobl ifanc eisïau athrawon cymwys a darparwyr arbenigol sy'n cyflwyno ACRh. Mae pob pwnc arall yn cael ei ddysgu gan arbenigwyr, felly dylai ACRh hefyd.
- ▶ Mae pobl ifanc eisïau i bob athro/athrawes gael ei hyfforddi mewn ACRh, ni waeth a yw'n mynd i'w chyflwyno ai peidio. Gallant weld nad yw athrawon yn gwybod sut i herio rhai sylwadau ac ymddygiadau. Nid yw iaith rywiaethol a'r defnydd o'r gair "hoiw" yn y maes chwarae yn cael ei herio gan fod athrawon yn anymwybodol yn ôl pob golwg neu'n ansicr beth i'w wneud.
- ▶ Mae pobl ifanc eisïau cymryd rhan yn y gwersi ac eisïau teimlo'n ddiogel i ofyn cwestiynau. Maen nhw eisïau helpu i lywio cyfeiriad y gwersi a'r hyn sydd ynddynt i'w gwneud yn fwy perthnasol iddyn nhw.
- ▶ Mae pobl ifanc eisïau cydnabod bod pob perthynas yn gyfartal. Maen nhw eisïau gwersi sy'n herio gwahaniaethu trwy'r ysgol ac yn hyrwyddo cydraddoldeb i bob disgybl o bob rhyw a rhywioldeb. Disgrifiodd pobl ifanc yr ysgol fel un heteronormyddol, o enghreifftiau mewn llyfrau testun, i'r hyn sydd ar walïau'r ystafell ddosbarth. Er enghraifft, yn yr ystafell gwnïo technoleg dylunio, mae'r holl ddelweddau ar y walïau o ferched ym maes ffasïwn. Mae yna fachgen yn fy nosbarth sydd eisïau bod yn ddylunio ffasïwn ac mae'n dweud ei fod yn teimlo'n isel ei ysbryd bob tro y mae'n cerdded i mewn i'r ystafell ddosbarth honno.

- ▶ Mae pobl ifanc eisïau mwy o wersi ACRh. Ar hyn o bryd, nid oes digon o amser i gynnwys yr holl bynciau cymhleth y mae angen iddynt eu dysgu na'r holl wybodaeth a sgiliau y mae angen iddynt eu dysgu.
- ▶ Rydym yn canolbwyntio ar y pethau anghywir. Ydy, mae rhyw yn bwysig, meddai pobl ifanc, ond maen nhw eisïau gwybod sut i drin cydberthnasau a sut i ymddwyn a beth sy'n normal, a hynny i gyd yn gyntaf. Maen nhw am iddo fod yn gwricwlwm troellogle mae'n symud ymlaen bob tro.
- ▶ Mae pobl ifanc eisïau trafod a chael eu dysgu sut i deall y ffyrdd y gall ein ffrindïau, y cyfryngau a chrefydd siapio'r ffordd rydyn ni'n deall cydberthnasau a rhyw. Maen nhw'n teimlo'n ddiogel yn glŷn â sut mae'r cyfryngau yn arbennig yn portreadu cydberthnasau a chyrrff penodol ac yn hepgor eraill. Er enghraifft, dywedon nhw na fydddech chi erioed yn cael *Love Island* hoiw a sut mae golygfeydd rhyw mewn ffilmiau Hollywood i gyd yn cynnwys yr un math o gorff ac nad ydych chi byth yn gweld unrhyw un anabl.
- ▶ Mae angen i ACRh ystyried yr holl wahanol brofiadau ac anghenion, gan gynnwys anghenion addysgol arbennig ac anabledau.
- ▶ Mae angen ACRh ar bobl ifanc sy'n gwneud synnwyr i'r materion go iawn sy'n eu hwynebu, ac mae angen ei haddasu os yw'r anghenion hynny'n newid.
- ▶ Mae pobl ifanc eisïau i rieni gymryd rhan ac maen nhw eisïau i rieni gael mwy o ddealltwriaeth o sut le yw'r byd iddyn nhw.



Dysgu trwy wrando

Yn ystod yr holl sesiynau rydw i wedi'u cynnal y tymor hwn, yn anad dim, rydw i wedi gwranddo ar bobl ifanc ac rydw i hefyd wedi dysgu cymaint. Eisteddais i yno a gwranddo ac fe wnaethant siarad ac rwyf wedi bod yn ymwybodol o bethau nad oedd gennyf unrhyw glem amdanynt.

Er enghraifft, roedd disgybl ifanc mwslimaidd wedi aros ar ôl i ddweud wrthyf nad yw hi'n teimlo ei bod hi'n ffitio yn yr ysgol oherwydd mae'n dweud yn ein cynllunwyr bod yn rhaid iddyn nhw wisgo sgarffiau pen tywyll/du, ond gall y plant eraill ddod i'r ysgol wedi torri eu gwallt mewn ffyrdd gwahanol, steiliau gwallt a phopeth arall. A dyna sut mae hi'n mynegi ei hun, trwy ei sgarffiau pen, a dangosodd luniau i mi o'i chwprwrdd dillad gartref gyda'i holl sgarffiau pen hardd. Felly llwyddais ystyried y wybodaeth honno a dweud, rydych chi'n gwybod ei bod yn dweud hyn yn y polisi gwisg – a oes unrhyw ffordd y gallwn ni gael gwared â hynny? Ac erbyn hyn mae hynny wedi cael ei dynnu, a daeth hi i mewn yr wythnos diwethaf gyda'r sgarff pen harddaf ac mae pawb wedi bod yn gadarnhaol iawn tuag ati ac mae hi gymaint hapusach.

Pan fyddaf yn meddwl fy mod i'n gwneud gwaith da, rwy'n sydyn yn cael fy synnu gan yr hyn maen nhw'n ei ddweud wrthyf i ac rydw i'n sylweddoli 'iawn, mae angen i mi ailfeddwl am hyn'. #ailfeddwlamhyn



Rwyf wedi gwranddo ar bobl ifanc ac rwyf hefyd wedi dysgu cymaint. Eisteddais i yno a gwranddo ac fe wnaethant siarad ac rwyf wedi bod yn ymwybodol o bethau nad oedd gennyf unrhyw glem amdanynt.

Er enghraifft, y rhyngwrwyd. Maen nhw'n clywed cymaint am ddiogelwch y rhyngwrwyd, ond mewn gwirionedd nid yw'n ymwneud â'u bywydau. Ydy, mae diogelwch ar y rhyngwrwyd yn bwysig, ond maen nhw eisiau'r sgiliau i wybod sut i ddelio â'r hyn maen nhw'n ei weld a'r hyn maen nhw'n ei anfon. Daw'r rhan fwyaf o'r cynnwys diangen y maen nhw'n ei dderbyn gan eu ffrindiau, ac nid ydyn nhw'n mynd i roi gwybod i'r heddlu am eu ffrindiau, ac er nad ydyn nhw am dderbyn y cynnwys hwnnw, dydyn nhw ddim eisiau colli eu ffrindiau chwaith. Felly mae angen mwy na sut i adrodd am gynnwys maleisus. Mae angen y sgiliau a'r pŵer arnyn nhw i ddelio â hynny eu hunain. Felly mae'n ymwneud â dweud – 'wyddoch chi, os ydych chi'n rhannu delwedd ohonoch chi'ch hun nad ydych chi'n hapus â hi, y gallwch chi roi hashnod digidol ar y ddelwedd honno nawr i atal y ddelwedd honno rhag cael ei rhannu yn unrhyw le ar y rhyngwrwyd?' Neu mae yna ap gwych gan Childline o'r enw Zipit sy'n rhoi pŵer iddyn nhw allu brwydro yn erbyn negeseuon maen nhw'n eu cael trwy roi memynnau bach iddyn nhw eu hanfon yn ôl. Mae llwyth o wahanol ffyrdd i drin y profiadau hyn.



Mae'n anghredadwy faint rydw i wedi'i ddysgu o wrando yn unig. Rwyf wedi dysgu eu bod yn gyffrous am gydberthnasau a bywyd ac yna mae'n cael ei ddileu'n sydyn. Rwyf hefyd wedi dysgu bod yn rhaid i ACRh newid yn eithaf aml ac mae'n rhaid iddi addasu a bod yn hyblyg oherwydd bod anghenion y disgyblion yn newid ac oherwydd weithiau mae pethau'n digwydd, ac mae angen i ni fynd i'r afael â'r pethau hynny.

Mae ACRh yn ôl

Fy nod hirdymor yw cydweithio â disgyblion, rhieni a chymunedau lleol i sicrhau bod ACRh wedi'i hymgorffori ar draws pob maes cwricwlwm a bod staff yn dysgu sgiliau newydd drwy hyfforddiant o ansawdd uchel i'r holl staff. Yn y tymor byr, rwyf am gyd-gynhyrchu cwricwlwm troellog sy'n ystyrlon ac sydd wedi'i ymgorffori ym mlwyddyn 8 erbyn Medi 2021.

Mae pethau eisoes yn newid yn ein hysgol. Mae ein pennaeth yn gwrando.

Mae pethau eisoes yn newid yn ein hysgol. Mae ein pennaeth yn gwrando. Mae wedi rhoi ACRh yn ôl ar yr amserlen ar gyfer blwyddyn 10 ac 11 ac mae gen i fy hen swydd yn ôl fel arweinydd ACRh. Rwyf wedi dechrau cyfweild ar gyfer hyrwyddwyr ACRh sy'n mynd i weithio gyda mi i gyflawni'r newidiadau sydd eu hangen. Rydyn ni'n mynd i ddefnyddio'r sgriniau o amgylch yr ysgol i gyfleu pob math o negeseuon cadarnhaol sy'n ymwneud â phob un o'r themâu ACRh y byddwn ni'n eu cynnwys. Mae gennym bosteri positif yn mynd i fyny ar y waliau ac mae'r pennaeth eisieu cyflwyno hyfforddiant i'r holl staff er mwyn newid y diwylliantyn yr ysgol. Mae'n gyfnod cyffrous i ni.



Rwyf wedi dechrau cyfweild ar gyfer hyrwyddwyr ACRh sy'n mynd i weithio gyda mi i gyflawni'r newidiadau sydd eu hangen.